

Pigion o'r Gymanfa Gyffredinol

Mwynhawyd tywydd crasboeth gan gynrychiolwyr y Gymanfa Gyffredinol eleni. Adlewyrchai hyn y croeso a fwynhawyd gennym wrth i ni gyfarfod yng Nghapel y Groes, Wrecsam.

Y mae i'r Gymanfa Gyffredinol ei nodweddion amlwg. Eleni croesawyd yn ôl ein harfer gynrychiolwyr o'r enwadau 'Diwygiedig'. Mynegodd Llywydd Cymanfa Gyffredinol yr Alban, Y Parch Susan Brown ei llawenydd o fod yn

bresennol yn y Gymanfa a soniodd am bwysigrwydd meithrin ein cysylltiadau hanesyddol i'r dyfodol.

Ar derfyn y tridiau dywedodd y Parch Ddr Charles McMullen ei fod wedi mwynhau ei ymweliad â'r Gymanfa

Gyffredinol. Dywedodd amdanom ein bod 'yn gymdeithas dwymgalon a chroesawgar.' Ychwanegodd, 'Roeddwn yn hoff iawn o'r logo – y Beibl a'r golomen – yr Ysbryd yn goleuo'r gair.

(parhad ar dudalen 8)



Cyfle i groesawu ymwelwyr
Gwir Barchedig Susan Brown (Yr Alban), Parch Kevin Watson (URC), Parch Ddr Charles McMullen (Iwerddon), a'r Parch Brian Matthews (EBC).



Cyfle i gyd-addoli

Yr eisteddfod sydd ar y gorwel...

Wrth feddwl am y croeso sy'n cael ei estyn i'r genedl i loetran yn y Bae ac i fwynhau Eisteddfod Genedlaethol arbrofol dyma feddwl... Tybed, beth yw cyd-destun tystio i efengyl Iesu Grist yn y Brifddinas heddiw? Ac i ni fydd yn ymweld â strydoedd Caerdydd beth tybed yw cyfraniad

Eglwys Bresbyteraidd Cymru i fywyd y ddinas ddoe a heddiw. Cawn gyfle yr wythnos hon a'r wythnos nesaf i gael ein tywys gan Gareth Williams, blaenor yn Salem, Treganna, i adnabod rhywfaint ar yr hanes a'r cyfraniad hwn.

Y bur hoff Bae...

Y man cychwyn i bob Eisteddfodwr yw'r 'maes' ond nid ar faes y lleolwyd Eisteddfod Caerdydd eleni! Prif ganolfannau'r wyl fydd Canolfan y Mileniwm, y Senedd a'r Pierhead ac o'u cwmipas hwy y lleolir y stondinau a'r atyniadau eraill sy'n rhan mor bwysig o bob eisteddfod.

Yn Salem, i ganu yr anthem...

Ar ganol y triogl a ffurfir gan y canolfannau fe saif cerflun o ddyn, ac, yn ôl rhai, y gŵr hwn yw'r Presbyteriaid (neu'r 'Methodus' chwedl Mari Lewis) enwocaf a fagwyd yn y ddinas.

Ivor Davies oedd ei enw ond yn sgil yr enwogrwydd a ddaeth i'w ran buan iawn y diflannodd y Davies oherwydd fel Ivor

Novello (!) y dymunai gael ei adnabod bellach.

Mab ydoedd i David Davies a'r cerddor enwog Clara Novello Davies. Merch oedd hi i Jacob Davies, blaenor ac Arweinydd y Gân yng nghapel MC Salem, Canton.

Yn ei ddydd roedd Jacob yn arweinydd côr llwyddiannus iawn a chofir amdano ef a'i gôr, Y *Blue Ribbon Choir*, yn ennill nifer o wobrau yng ngŵyl y Crystal Palace yn 1893 gan gynnwys y Fedal Aur enwog. Gymaint oedd ei hoffter o lais y gantores Eidalaidd Clara Novello



fel y penderfynodd Jacob enwi ei ferch fach ar ei hôl, er dirfawr siom i'r tadau yn y seiat!

Ar aelwyd Salem tyfodd Clara yn gerddor medrus ac enillodd gydnabyddiaeth fel hyfforddwr lleisiau ac, yn ddiweddarach, fel arweinydd côr merched. Trefnodd i'r côr ymweld â Gŵyl Fawr Chicago yn 1893 a chawsant lwyddiant ysgubol yn y cystadlaethau corawl. Fel canlyniad, ar ôl dychwelyd i Gymru cafodd y côr wŷs i ganu gerbron y Frenhines Fictoria a chyflwynwyd 'brooch' i Clara gan y Frenhines i gofio am yr achlysur.

Ivor

Ganed mab i Clara a David yn 1893, sef Ivor. Cofnodwyd ei enw ar restr plant

(parhad ar dudalen 2)

Aneurin Bevan a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol

Do, dathlwyd ddechrau'r mis hwn, gyda ffanffer a brwdfrydedd, ben-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yn 70. Bydd nifer ohonom yn ystod wythnos yr eisteddfod yn pasio heibio cof golofn Aneurin Bevan ar Heol y Frenhines, Caerdydd. Ond pwy oedd y gwron a gofir yno? A beth oedd y weledigaeth roddodd fod i'r Gwasanaeth Iechyd?

Saif Aneurin Bevan ar ei ben ei hun fel gwleidydd o argyhoeddiad ac fe adawodd ar ei ôl yn 1960 wasanaeth sydd yn bwysig dros ben i bawb ohonom yn y flwyddyn 2018. Mewn arolwg a wnaed ar ddechrau'r ganrif hon daethpwyd i'r casgliad trwy'r cyhoedd mai Cymro mwya'r canrifoedd oedd y gwleidydd Aneurin Bevan (1897-1960). Y mae hynny yn gryn glod. A'r rheswm pennaf am yr orchest yw mai ef yw pensaer a chrëwr y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Cawsom gyfle eleni i gofio'r digwyddiad pwysig a'r Gwasanaeth Cenedlaethol a ddaeth i fodolaeth ar 5 Gorffennaf 1948 pan aeth y ddeddf trwy'r Senedd.

Ie, saith deg mlynedd yn ôl. A daliwn i lawenhau yn y weledigaeth.



Cof golofn Aneurin Bevan ar Heol y Frenhines, Caerdydd

Anrhydeddu Beirniad

Y syndod pennaf yn nechrau Awst 1945 oedd bod y Prif Weinidog Clement Attlee wedi gwahodd Aneurin Bevan o bawb yn ei blaid i fod yn Weinidog Tai, Iechyd a Llywodraeth Leol. Anrhydeddu beirniad pennaf y meinciau cefn, a gwleidydd a fu'n dweud y drefn gyda huodlled anghyffredin wrth arweinwyr pob plaid pan oeddynt yn ei dyb ef yn cyfeiliorni. Ac yn ddistaw bach gobeithiai Attlee weld Bevan yn tyfu yn y swydd er nad oedd ganddo unrhyw brofiad o ddal cyfrifoldeb – ar wahân i fod yn asiant answyddogol y glöwyr yn Sirhowy, Cynghorydd a Chadeirydd yr Ysbyty Lleol yn Nhredeg, a bod yn Aelod Seneddol Glyn Ebwy oddi ar 1929. Fe'i hanwybyddwyd yn bwrpasol er mai ef oedd y deallusyn pennaf a feddai'r Blaid Lafur er iddo adael yr ysgol gynradd yn un ar ddeg oed.

Gwladoli Ysbytai

Daeth Aneurin i gredu y dylid gwladoli'r Ysbytai gwirfoddol, ysbyty'r awdurdodau lleol ac ysbytai enfawr ar gyfer y rhai a ddrysodd o ran meddwl. Yr oedd ef a Jim Griffiths, Cymro o Gristion glan gloyw, yn frwd dros y syniad hwnnw mewn meysydd heblaw Ysbytai. Deilliai'r syniad iddynt o'u profiad blin o ddiweithdra yn y dau ddegau. Mentrodd Aneurin ar lwybr na feddyliodd y gwleidyddion Llafur amdano a chlod iddo am ei ddewrder anghyffredin. Darllenodd Aneurin yn ofalus erthyglau y cylchgronau safonol y chwith a'r dde, y

dogfennau o eiddo Llywodraeth y Coalisiwn, a doethineb ei ffrindiau o fewn y gwasanaeth meddygol, fel Syr Daniel Davies, mab gweinidog Presbyteriaidd Cymraeg Pontycymer. Daeth i'r casgliad ym mlynedd oedd y rhyfel, ar ôl Adroddiad pwysig Syr William Beveridge, fod unrhyw wasanaeth meddygol, i fod yn rhydd o awdurdodau lleol, ac mai llwybr gwladoli a threfnu yn rhanbarthol oedd y dewis gorau.

Dyfnder Gweledigaeth

Gwyddai Bevan beth oedd ganddo yn ei weledigaeth. Roedd y weledigaeth wedi bod ganddo ar hyd ei oes gan fod ei dad David Bevan, y Cymro diwylliedig, yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar yn 1890. Darparai'r Gymdeithas am ofal iechyd y glöwyr a'u teuluoedd ar y dechrau. Ac yn ddiweddarach sicrhau bod gofal am bawb o'r trigolion yn gyfnewid am danysgriadau. A bu Aneurin ei hun yn gadeirydd y Gymdeithas ac ar Bwyllgor Gwaith yr Ysbyty Lleol. Dyna'r model oedd yn ei feddwl. Trafododd yn fanwl Cynllun Tredegar gydag ychydig o newidiadau yn y Cabinet ar 11 a 18 Hydref 1945 er bod rhai yn mynnu ei wrthwynebu heb drugaredd. Cafodd ei feirniadu gan Adain Dde a Chwith ei blaid ei hun a bu'r Toriaid yn ddidrugaredd hyd y ddadl olaf. Bu Cymdeithas Feddygol Prydain hefyd yn ffaidd tuag ato heb laesu dwylo ond cicio yn erbyn y tresi.

Bu rhagor o drafod trwy 1946 ond erbyn Tachwedd 6 1946 yr oedd hi yn fwy gobeithiol. Blwyddyn ar ôl hynny yr oedd ef wedi llwyddo yn yr Alban hefyd.

'Serenedd'

Yr oedd y Wasg safonol o'i blaid. Braf oedd ennill y dydd, gweld y wyrwys yn diflannu, a phawb yn cael eu parchu. Bu'n rhaid iddo gymroddu i gael gwireddu ei freuddwyd ar 5 Gorffennaf 1948. Bodlon ydoedd y diwrnod hwnnw gan iddo gredu ei fod wedi cwblhau'r gwaith a gychwynnwyd gan Lloyd George ddeugain mlynedd a mwy ynghynt

I Bevan yr oedd y gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol i greu 'serenedd trwy'r wlad,' a dyna fu ei gamp..

D.Ben Rees

Pigion o'r Gymanfa Gyffredinol (parhad o dudalen 1)



Cyfle i gwrdd â chyfeillion

Wrth gloriannu Cymanfa Gyffredinol 2018 mynegodd y Parch Brian Matthews, Llywydd presennol y Gymanfa (2018-2019) ei fodlonrwydd yntau am yr ysbryd dymunol a brofwyd yn y Gymanfa eleni. Ar y cyfan roedd yn 'amser defnyddiol', meddai. 'Mae yna adegau yn ein gweithgareddau pan fydd pethau braidd yn ddiflas a phan fyddwn fel pe bawn yn gwneud dim arall heblaw am godi neu ostwng ein dwylo. Mae cynnodau fel yna'n anrffod o bryd i'w gilydd. Ond ddylai hynny ddim ein diflasu oherwydd roedd yna adegau gwych hefyd – y drafodaeth danbaid am geisio arian y loteri genedlaethol, adroddiad Eglwys a Chymdeithas, cyfraniad y gwasanaeth ieuencid, anerchiad Dr. Robert Cunville am fywyd Billy Graham ac wrth gwrs ein hamser o addoliad. Ac roedd y tywydd braf yn gymaint o gaffaeliad hefyd i ni wrth i ni fedru mwynhau sgwrsio â'n gilydd yn yr awyr agored. Roeddwn yn synhwyro bod yr awyrgylch a'r berthynas rhyngom a'n gilydd yn gwmniaeth hapus iawn. Diolch i bawb gyfrannodd at lwyddiant y Gymanfa eleni.'



Cyfle i gymdeithasu

Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: goleuad@ebcpw.org.uk Hysbysebion i Swyddfa'r Goleuad, Gwasg y Bwthyn, Tŷ Cadnant, Part 2, Lôn Hen Felin, Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BD. (01286) 672018. e bost: goleuad@btconnect.com

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol.

Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost fel Newyddiadur.



9 770017 170003